## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 8fed o Fehefin 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Penmorfa |
| **TEITL:** | Adroddiad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Er gwybodaeth |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | a) Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o waith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru a'r Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n gosod allan yr atebolrwydd democrataidd ar gyfer PACC am y cyfnod 2023 – 2026.<br>b) Diweddariad o effaith y bartneriaeth a'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau 22/23<br>c) Blaenoriaethau'r bartneriaeth ar gyfer 2023 – 2024. |

**CEFNDIR:**

- Ffurfiwyd Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) sef partneriaeth addysg rhwng Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion ym mis Medi 2021. Fe'i seilir ar Femorandwm o Ddealltwriaeth (Atodiad A) sy'n nodi'r meysydd ac amodau bydd y ddwy sir yn cyd-weithio arnynt, megis:
    - Cefnogaeth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm / datblygu'r Cwricwlwm i Gymru
    - Llwybrau Arweinyddiaeth
    - Cymorth i Athrawon Newydd Gymhwyso ac athrawon gyrfa gynnar
    - Datblygiad proffesiynol Cynorthwywyr Dysgu
    - Lleihau effaith difreintedd gwledig, sicrhau ecwiti ar gyfer pob dysgwr a gwella lles

- Ariennir gwaith cydweithiol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru o Grant Consortia Rhanbarthol (RCG) blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Derbynnir y grant yn unigol gan y ddau Awdurdod Lleol er mwyn ariannu'r gwaith cydweithredol i gyflawni'r telerau ac amodau o:
    - Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.
    - Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn.
    - Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr.

- Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff.
    - Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy’n dysgu.
    - Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
    - Bod yn ganolog i’w cymunedau – meithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant.
    - Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.

- Trwy weithio ar y cyd, mae’n rhoi mynediad uniongyrchol i gyllid grant Consortia Rhanbarthol (RCG) Llywodraeth Cymru ac felly yn ychwanegu capasiti gwerthfawr i wasanaethau addysg Ceredigion a Phowys.

- Yn flynyddol cyflwynir Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru i’w gymeradwyo (Atodiad B). Yn dilyn hyn, ceir adolygiad blynyddol cadarn a thrylwyr gyda’r Gweinidog Addysg ac uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru. Mae Arolygwyr Estyn hefyd yn monitro cynnydd y cynllun busnes a gwaith y bartneriaeth yn rheolaidd.

- Blaenoriaethau 2022 – 2023 PACC:

    - Sicrhau bod ysgolion yn hyderus wrth roi’r Cwricwlwm i Gymru ar waith o Fedi 2022 ymlaen, a pharhau i ganolbwyntio ar wella’r dysgu ac addysgu
    - Cefnogi a datblygu gweithwyr addysg proffesiynol rhagorol
    - Datblygu a rhoi strategaeth degwch ar waith, a chefnogi lles ac anghenion emosiynol disgyblion ac ymarferwyr
    - Sicrhau bod trefniadau cynorthwyo a gwella ysgolion yn glir, ac arwain ysgolion i barhau i ddatblygu fel sefydliadau dysgu sy’n rhoi’r trefniadau gwella, gwerthuso ac atebolrwydd diwygiedig ar waith
    - Sicrhau trefniadau mewnol effeithlon, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid.

- Mae’r ddau Awdurdod Lleol yn cynnal eu gwasanaethau gwella ysgolion eu hunain, fodd bynnag, trwy gydweithio ar y pum maes a amlinellir uchod, mae’n ychwanegu gwerth am arian sylweddol, ehangder a dyfnder y gefnogaeth i wasanaethau addysg ac ysgolion Ceredigion a Phowys. Er enghraifft, trwy rannu’r baich ar y fforymau cenedlaethol, rhannu adnoddau a chyd-gynllunio. Mae yna hefyd feysydd gwaith penodol i Geredigion a Phowys, megis y gefnogaeth bwrpasol i athrawon ar ddechrau eu gyrfa ac effaith amddifadedd gwledig sy’n flaenoriaethau allweddol i’r bartneriaeth.

- Mae cefnogaeth bwrpasol a chyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael ei frocera drwy'r Ymgynghorwyr Cefnogi Ysgolion, gyda blaenoriaethau'r ysgol unigol yn cael eu rhannu gyda swyddogion i lywio eu cynllun cefnogi. Yn 2022 - 2023, roedd 66 ysgol ar draws PACC wedi nodi’r Cwricwlwm i Gymru fel blaenoriaeth ysgol gyfan a 37 blaenoriaeth ar asesiad a dilyniant. Ar gyfer yr ysgolion hyn, darparwyd cefnogaeth bwrpasol i ganiatáu sgyrsiau unigol

ar gynllunio cwricwlwm ysgol gyfan a chynlluniau dilyniant ac asesu pwrpasol. Ym mis Medi 2022 bu i holl ysgolion cynradd / cyfnodau a chwe ysgol uwchradd, pob oed ac arbennig (un yng Ngheredigion a phump ym Mhowys) fabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â'r gofynion gorfodol, gyda chymorth a chanllawiau gan PACC, mae pob un o'r ysgolion hyn wedi datblygu gweledigaeth ysgol bwrpasol. Mewn llawer o ysgolion PACC, datblygwyd y weledigaeth ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr archwilio nodweddion hanesyddol, diwylliannol, a chymdeithasol eu cynefin a Chymru yn llwyddiannus. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae gweledigaeth yr ysgol hefyd wedi llwyddo i ymgorffori cyfleoedd i ddysgu am amrywiaeth y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Er enghraifft, ym mis Mai 2022, bu i Estyn arolygu ysgol Penglais a holi iddynt baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru wrth iddynt nodi bod '*dylunio'r cwricwlwm wedi'i seilio ar ymchwil ac wedi'i gysylltu'n fuddiol â datblygu addysgu*'. Ac yn Ysgol Uwchradd Aberteifi bu i arolygiad mis Mawrth 2022 adrodd '*mae gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm, ynghyd â ffocws ar wella addysgu, wedi arwain at weledigaeth gref a chlir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru*'.

- Darperir cefnogaeth gyffredinol a phwrpasol i ymarferwyr PACC (waeth beth fo'u cam yn eu gyrfa) i wella eu hymarfer a datblygu fel arweinwyr y dyfodol. Er enghraifft, cefnogaeth, arweiniad a rhwydweithio ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro yn eu rolau yn arwain a rheoli ysgol fel agweddau o iechyd a diogelwch, cynnal a chadw safle'r ysgol, cyllid ac adnoddau dynol; neu gymorth i athrawon gyrfa cynnar ym mlynyddoedd 2 i 5 o'u gyrfaoedd addysgu drwy'r cynllun peilot mae PACC yn rhedeg.

- Gwelir effaith gadarnhaol gwaith y bartneriaeth hefyd ar ymarferwyr a datblygiad arweinwyr Ceredigion a Phowys. Er enghraifft, bu i 14 o arweinwyr llwyddo yn eu cymhwyster CPCP i benaethiaid yn 2023 (1 o Geredigion a 13 o Bowys). Mae 21 o ymarferwyr eraill o PACC wedi llwyddo i gwblhau'r rhaglen datblygu i arweinwyr canol yn llwyddiannus, 12 y rhaglen datblygu i uwch arweinwyr ac 8 y rhaglen i ddatblygu darpar benaethiaid, sy'n eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at welliant a darpariaeth eu hysgolion.

- Yn 2022 – 2023 bu i holl ysgolion PACC cael mynediad at adnoddau a chefnogaeth RADY, sy'n canolbwyntio ar godi cyrhaeddiad pobl ifanc difreintiedig. Mae dull haenog o gefnogi, sy'n cyd-fynd ag anghenion ysgol, blaenoriaethau ysgolion ac argymhellion yr awdurdodau lleol. Yn 2022 – 2023 cafwyd cam 1 o gyflwyniad RADY ar draws PACC:

| | | **Ceredigion** | **Powys** |
|---|---|---|---|
| RADY ysgol – y lefel uchaf o gefnogaeth | Lefel uchaf o gefnogaeth ↓ | 2 | 2 |
| RADY – cadw mewn cysylltiad | | 1 | - |
| RADY – hyfforddiant a chymell o bell | | 4 | 4 |
| RADY – cefnogaeth wedi ei recordio | | 10 | 22 (2 grwp) |
| Adnoddau RADY – y lefel isaf o gefnogaeth | Lefel isaf o gefnogaeth | 26 | 20 |

Mae llawer o ysgolion sy'n ymgysylltu â RADY ysgol, cadw mewn cysylltiad â'r hyfforddiant a chymell o bell yn ystyried pob agwedd o'r rhaglen yn ofalus ac yn dechrau gwireddu 'llawn botensial' eu dysgwyr difreintiedig. Mae gwaith cychwynnol llwyddiannus yn ymwneud â chynrychiolaeth gyfrannol dysgwyr difreintiedig a chael 'llinyn aur' yn llifo drwy holl gynlluniau datblygu a pholisïau academaidd a bugeiliol ysgol er mwyn sicrhau bod y lefel addas o her a chymorth ar gael i'r dysgwyr a bod pob aelod o staff yn berchen ar yr ethos RADY. Nodwyd gwaith ysgolion i wella tegwch yn y ddarpariaeth ac i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddysgwyr o fewn adroddiadau arolygu Estyn diweddar. Er enghraifft, cofnodwyd gan Estyn yn dilyn ei arolygiad o Ysgol Uwchradd Aberteifi ym mis Mawrth 2022 '*Mae arweinwyr ar bob lefel wedi darparu arweinyddiaeth gadarn ar hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Ar ôl y cyfnodau clo, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n gryf ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Yn ychwanegol, maent wedi blaenoriaethu cymorth ar gyfer disgyblion bregus i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Ceir darpariaeth gynhwysfawr i sicrhau bod y disgyblion hyn yn yr ysgol ac yn barod i ddysgu'*.

- Yn dilyn cydweithio agos rhwng swyddogion Ceredigion a Phowys ac yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, mae'r pum blaenoriaeth ganlynol wedi'u nodi yn y cynllun busnes (Atodiad B) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022 – 2023:

  i. Cefnogi holl ysgolion PACC i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.
  ii. Cefnogi holl ysgolion PACC i sicrhau bod dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel, gan adeiladu arferion addysgeg, dilyniant ac asesu effeithiol gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
  iii. Datblygu cefnogaeth bellach i ysgolion i sefydlu ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr.
  iv. Cefnogi ymarferwyr PACC i ddilyn llwybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr.
  v. Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC.

- Bydd swyddogion yn monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau uchod pob chwarter yng nghyd â sesiynau adrodd tymhorol i Brif Weithredwyr ac Aelodau Etholedig Ceredigion a Phowys.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau?** Nac oes<br>**Os na, nodwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:** |

**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD**

1. Nodi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer 2023 – 2026 (Atodiad A)
2. Nodi Cynllun Busnes Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru ar gyfer 2023-24 (Atodiad B)

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

- Gweithredu'r blaenoriaethau yng Nghynllun Busnes 2023 – 2024.
- Cytuno ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Powys a Cheredigion am y cyfnod 2023 – 2026.

**Enw Cyswllt & swydd:**

- Clive Williams - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion
- Anwen Orrells - Arweinydd Strategol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
- Mary Davies - Rheolwr Corfforaethol: Gwella Ysgolion

**Dyddiad yr Adroddiad:** 09.05.2023

**Acronymau:**

- PACC: Partneriaid Addysg canolbarth Cymru (MWEP: Mid Wales Education Partners)
- RCG: Regional Consortia Grant
- CPCP: Cymhwyster proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth
- RADY: Codi cyrhaeddiad pobl ifanc difreintiedig / Raising the Attainment of Disadvantaged Youngsters'